Mesur Iechyd Meddwl (Cymru)

Cylchlythyr 1 – Ionawr 2012

Yn ystod 2012 daw **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru)** i rym. Darn o gyfraith sy'n cael ei wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw mesur.

Mae'r Mesur Iechyd Meddwl yn gwneud nifer o newidiadau pwysig i'r ffordd gall pobl â phroblemau iechyd meddwl gyrchu gwasanaethau a'u derbyn.

Yng Ngogledd Cymru mae'r Bwrdd Iechyd, meddygon teulu, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod trefniadau ar waith i ddarparu'r gwasanaethau newydd hyn. Mae gan y Mesur oblygiadau ar gyfer staff sy'n gweithio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a byddwn yn cyhoeddi cylchlythyr bob mis i helpu cydweithwyr i ddysgu am y Mesur, sut bydd yn effeithio arnynt ac unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i fod yn barod i'w rhoi ar waith.

Yn y rhifyn cyntaf hwn rydym yn rhoi esboniad cryno o'r Mesur a'r trefniadau prosiect sydd ar waith i roi ei ofynion ar waith yng Ngogledd Cymru. Bydd rhifynnau yn y dyfodol yn rhoi ffocws mwy manwl ar elfennau penodol y Mesur ac yn adrodd ar gynnydd ar weithrediad.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach am y Mesur, goblygiadau lleol a chynnydd ar weithrediad ar wefan y Bwrdd Iechyd sef www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/58653

Cyflwyniad i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru)

Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn gosod y gyfraith iechyd meddwl bresennol. Mae'n rhoi fframwaith ar gyfer cyfnodau yn yr ysbyty a thriniaeth orfodol rhai pobl ag anhwylder meddyliol. Fodd bynnag, lleiafrif bach iawn o bobl â phroblemau iechyd meddwl sydd angen y driniaeth orfodol hon. Mae'r rhain fwyaf o bobl â phroblemau iechyd meddwl yn ceisio triniaeth yn wirfoddol.

Mae'r Mesur newydd yn delio â chyrchu a derbyn gofal a thriniaeth o fewn gwasanaethau iechyd meddwl cychwynnol ac eilaidd. Bydd yn berthnasol i bawb, o bob oed, sy'n derbyn gofal a thriniaeth o fewn y gwasanaethau hyn yng Nghymru yn wirfoddol; mae eiriolaeth, triniaeth a derbyniad gorfodol yn dal i fod yn faterion ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Dyma bedwar bwriad bras y Mesur:

1. Darparu asesiad o iechyd meddwl unigolyn a, lle bo'n briodol, darparu triniaeth ar gyfer eu hiechyd meddwl o fewn gofal cychwynnol. Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd statudol ar Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i ddatblygu a darparu **gwasanaethau cefnogi iechyd meddwl cychwynnol** lleol ar draws Cymru.
2. Gwella effeithiolrwydd a chyd-drefniant gwasanaethau iechyd meddwl trwy greu gofynion statudol o ran **cynllunio gofal a thriniaeth a chydlynu gofal**.
3. Rhoi gofyniad ar wasanaethau iechyd meddwl eilaidd i gael trefniadau ar waith i alluogi pobl maent wedi'u rhyddhau i **gyfeirio eu hunain yn ôl i'r gwasanaeth yn uniongyrchol** os byddant yn credu bod eu hiechyd meddwl yn dirywio yn sylweddol, heb orfod mynd i'w meddyg teulu neu rywle arall yn gyntaf i gael eu cyfeirio.
4. **Ymestyn darpariaeth cefnogaeth Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA)**, sydd ar hyn o bryd dim ond yn ofynnol ar gyfer cleifion sy'n destun i adrannau mwy tymor hir y Ddeddf Iechyd Meddwl, fel ei bod ar gael i'r rhan fwyaf o gleifion sy'n cael eu cadw dan y Ddeddf a'r rheiny sy'n cael eu derbyn i ysbyty yn wirfoddol.

Dyddiadau Dechrau ar gyfer y Mesur

Mae yna nifer o ddyddiadau allweddol yn ystod 2012 pan fydd angen i bob un o'r elfennau hyn fod ar waith:
Ionawr - Gwasanaethau Eiriolaeth i fod ar gael i'r rhan fwyaf o gleifion sy'n destun i'r Ddeddf Iechyd Meddwl
Ebrill - Gwasanaethau Eiriolaeth i fod ar gael i bob claf mewnol gwirfoddol (anffurfiol)
Mehefin - Cynllunio Asesiad, Gofal a Thriniaeth a chyd-drefniant gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd, gan gynnwys trefniadau hunan gyfeirio uniongyrchol ar gyfer cyn gleifion
Hydref - Gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Cychwynnol Lleol

Trefniadau Rhoi ar Waith

Mae Bwrdd Prosiect wedi cael ei sefydlu i oruchwylio gweithrediad y Mesur yng Ngogledd Cymru, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gofal Cychwynnol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl y Bwrdd Iechyd. Mae hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Grwpiau Rhaglen Glinigol, Meddygon Teulu, Awdurdodau Lleol a'r sector gwirfoddol yn ogystal â chynrychiolwyr defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr.

Mae tri grŵp gweithredu'r prosiect yn mynd rhagddo â'r cynllunio a gweithredu manwl, un yn edrych ar drefniadau eiriolaeth, un yn edrych ar gefnogaeth gofal cychwynnol, cynllunio gofal a threfniadau cyd-drefnu ac ailgyfeirio ar gyfer plant a phobl ifanc, ac un yn edrych ar yr un meysydd ar gyfer oedolion.

Ffocws ar Eiriolaeth



Y rhan gyntaf o'r Mesur i'w rhoi ar waith yw estyniad y Cynllun Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol i gwmpasu pob unigolyn sy'n cael ei gadw/chadw dan adrannau'r Ddeddf Iechyd Meddwl (yn benodol yn cynnwys adrannau 4, 5(2) a 5(4). Bydd ail gyfnod hyn, ym mis Ebrill, yn ehangu'r cynllun ymhellach i ddarparu mynediad at eiriolaeth i bob claf mewnol anffurfiol mewn ysbytai neu sefydliadau cofrestredig yng Nghymru

Ar hyn o bryd mae Partneriaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol. Maent wedi cael eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaethau estynedig, i ddechrau hyd fis Mawrth 2013. Bydd cost hyn yn cael ei diwallu gan adnoddau ychwanegol wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Bartneriaeth wedi recriwtio a hyfforddi eiriolwyr ychwanegol, gan gynnwys arbenigwyr i weithio gyda phlant a phobl ifanc, i ddarparu'r gwasanaeth estynedig hwn. Maent wedi cynhyrchu amrywiaeth o ddeunyddiau cyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth estynedig.

Manylion Cyswllt

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach am y Mesur a rhoi ar waith lleol ar ein gwefan sef www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/58653

Neu gallwch gysylltu â Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Datblygu Partneriaeth Gymunedol:
Anfonwch neges e-bost at wyn.thomas@wales.nhs.uk
neu ysgrifennwch at Mr W Thomas, Tŷ Matthew, Uned 35. Llys Edmund Prys,
Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Clwyd, LL17 0JA